GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Gwasanaethau Eiddo
Swydd	Rheolwr/Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw
Rhif y Swydd	502964
Gradd	Llwybr Graddfa 9 – 13
Lleoliad	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant.
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Strategaeth Eiddo
Yn gyfrifol am	Oruchwylio unrhyw staff cynnal technegol sy'n uniongyrchol ynghlwm â'r swyddogaeth adeiladau a chynnal a chadw

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD
I reoli a darparu gweithfeydd a gynlluniwyd ac adweithiol yn ôl y gofyn er mwyn cynnal portffolio eiddo'r Gwasanaeth. I gynorthwyo'r Rheolwr Strategaeth Eiddo wrth gyflenwi'r prif brosiectau. I gymhwyso gwybodaeth a phrofiad i faterion adeiladau o ddydd i ddydd er mwyn darparu'r datrysiadau a'r cyngor gwerth gorau.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Rheolwr/Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw

1. I ddarparu cymorth a chyngor i'r Rheolwr Strategaeth Eiddo a'r Rheolwr Cyfleusterau ynglŷn â chyflenwi'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo.

2. I ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddarparu unrhyw fân weithfeydd (a gynlluniwyd ac adweithiol) sy'n ymwneud â phortffolio eiddo'r Gwasanaeth.

3. I roi cyngor ac, wedi hyn, rhoi ceisiadau am ddiffygion ar waith a dderbyniwyd drwy law'r Ddesg Gymorth sy'n gofyn am ddatrysiad a beiriannwyd.

4. I gynllunio, rheoli a goruchwylio'r gweithfeydd a gynlluniwyd ac adweithiol a mân weithfeydd sy'n gysylltiedig â phortffolio eiddo'r Gwasanaeth.

5. I baratoi tendrau ar gyfer caffael gweithfeydd adeiladu a chyflawni'r gwerthusiad i ddarparu argymhellion i'r Rheolwr Strategaeth Eiddo a Chaffael.

6. I fynychu safleoedd ar gyfer ymweliadau safle cyn ac ar ôl i gontractwyr gwblhau gweithfeydd a gynlluniwyd ac adweithiol i sicrhau y cwblhawyd atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw a diffygion i'r safonau sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth.

7. I gysylltu â'r staff priodol sydd wedi'u lleoli mewn gorsaf pan gaiff gwaith cynnal eiddo ei gynllunio, ei weithredu a'i gwblhau.

8. Codi gorchmynion am fân weithfeydd a darparu diweddariadau i'r Rheolwr Strategaeth Eiddo ar ymrwymiadau a gwariant cyllidebau.

9. I fynychu cyfarfodydd iechyd a diogelwch misol a grwpiau ar faterion cynnal a chadw eiddo yn ôl y gofyn.

10. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw eiddo o ddydd i ddydd ar weithgorau/grwpiau/pwyllgorau a phanelau, yn fewnol ac allanol ill dau, lle bo'n angenrheidiol.

11. I gadw'n gyfredol â newidiadau i ofynion rheoleiddiol.

12. I gyfranogi yn y rota tu allan i oriau ar gyfer y Tîm Gwasanaethau Eiddo yn unol â'r gyfradd gyfredol.

Goruchwylydd Adeiladau a Chynnal a Chadw

13. I gynhyrchu'r rhagfanylion priodol, caffael amcanbrisiau/tendrau a phenodi contractwyr/ymgynghorwyr wrth ddefnyddio cytundeb priodol am weithfeydd sy'n ymwneud â gweithfeydd eiddo a gweithfeydd cynnal a chadw adweithiol.

14. I gaffael a rheoli fframweithiau ar gyfer cyflenwi contractwyr cynnal a chadw adweithiol ac a gynlluniwyd i ganiatáu dethol uniongyrchol.

15. I ddarparu cymorth i gleientiaid, ar gais, i'r Timau Dylunio sydd wedi'u sefydlu i gyflenwi'r prif brosiectau.

16. I sicrhau bydd y Gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a gofynion statudol eraill gan gynnwys rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladau a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'i asedau eiddo, ei gontractwyr a'i staff.

17. Wrth ymgymryd â gwaith mewn perthynas â phrosiectau adeiladu, sicrhewch y cynhelir cofnodion cywir at ddibenion archwilio. Dylai hwn gynnwys crynodebau prosiect, achosion busnes a dogfennaeth caffael gefnogol.

18. I ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau i benderfynu a monitro cyflwr ein hadeiladau a pharatoi rhestrau gwaith lle adnabyddir eitemau o natur Iechyd a Diogelwch.

19. I reoli a chyd-lynu contractwyr ac ymgynghorwyr.

20. I gynnal gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o ddeddfwriaeth, datblygiadau technegol a pholisïau adran a chynorthwyo wrth ddatblygu polisïau a strategaethau i alluogi darparu gwasanaethau effeithiol.

Rheolwr Adeiladau a Chynnal a Chadw

21. I arddangos dealltwriaeth dda o reolaeth prosiectau adeiladu ar ôl cyflawni cymhwyster cydnabyddedig/tystysgrif gydnabyddedig gan gorff proffesiynol perthnasol.

22. I ymgymryd â rôl rheoli prosiect/asiant cyflogwr i ddarparu pob mân brosiect adeiladu, a chefnogi'r Strategaeth Eiddo wrth ddarparu prif brosiectau.

23. Mewn perthynas â phrif brosiectau, i weithredu fel arweinydd cleient ar gais y Rheolwr Strategaeth Eiddo a rheoli a chyd-lynu camau prosiect adeiladu; gan gynnwys cynllunio, caffael ac adeiladu, wrth ddarparu diweddariadau ar gynnydd i gyfranddalwyr.

24. I diweddaru a chynnal a chadw cyflwr data arolygon i sicrhau cynllunio ac ariannu cynnal a chadw effeithiol.

25. I weinyddu amodau cytundeb mân weithfeydd adeiladu sy'n ymwneud â gweithfeydd cynnal a chadw a gynlluniwyd ac adweithiol.

26. I gynllunio, datblygu ac ymgymryd â phrosiectau arbennig yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Strategaeth Eiddo.

27. I benodi a rheoli ymgynghorwyr allanol i gynnwys monitro eu perfformiad.

28. Cyfrifoldeb Rheoli Llinell i unrhyw aelod staff a benodwyd i gefnogi'r swyddogaeth cynnal a chadw eiddo.

29. I fonitro gwariant a darparu adroddiadau rheoli costau i'r Rheolwr Strategaeth Eiddo mewn perthynas â phrosiectau yr ymgymerir â hwy.

30. Rheoli diffygion mewn perthynas â phrosiectau gorffenedig.

31. I ddatblygu dogfen anghenion cyflogwyr i hysbysu cynllunio gwerth gorau mewn perthynas â'n hadeiladau.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen;

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd;

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth;

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod;

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

Noder:

Bydd y rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru a bydd angen i ddeilydd y swydd deithio'n annibynnol.

Mae'r rôl yn cynnwys peth gwaith penwythnosol/gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol.

Adeiladau a Chynhaliaeth – Strwythur Graddfa Gyrfa

Cynlluniwyd y swydd hon fel swydd graddfa gyrfa i adnabod sgiliau ac arbenigedd deilydd y swydd. Mae'r swydd yn cwmpasu nifer o raddfeydd a phennir dyrchafu rhwng bob gradd drwy law lefel cymhwystra a chyflawni amryw feini prawf. Mae'r isod yn nodi'r anghenion cymhwyso a phrofiad ar gyfer dyrchafu o un radd i'r nesaf.

Bydd y Rheolwr Llinell yn cynnal cyfweliadau ffurfiol bob 6 mis neu ar ddyddiad caffael cymwysterau ychwanegol, pe bai hynny'n digwydd ynghynt. Bydd datblygiad cyflog drwy law cynyddrannau o fewn pob Graddfa a dyrchafiad drwy Raddfa ar y strwythur yn cael ei bennu yn yr adolygiad ffurfiol chwech misol ac ar argymhelliad y Rheolwr Llinell mewn ymgynghoriad â'r Uwch Swyddog AD. Ym mhob adolygiad, rhaid cyflawni'r meini prawf perfformiad cymeradwy a nodwyd am bob gradd.

Bydd hawl i apelio i'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Bydd y cyflog ar y lefel gychwynnol yn dibynnu ar gymhwyster a phrofiad profedig. Bydd y deilydd swydd yn cychwyn ar bwynt arbennig ar y raddfa fynediad ac yn cyrraedd y raddfa nesaf pan gyflawnir y meincnod.

Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw (Graddfa 9-11)

Y meini prawf hanfodol ar gyfer cychwyn graddfa gyrfa yw cofrestri am radd achrededig gymeradwy i arbenigwyr adeiladu.

<u>Meini Prawf Perfformiad Allweddol Cam 1</u>

- Cwblhau blwyddyn 1 o radd gydnabyddedig yn llwyddiannus ac arddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion a ddysgwyd. (Cyfeiriwch at eich modiwlau Cwrs)

- Cwblhau lleiafswm o 1 flwyddyn o brofiad ymarferol perthnasol a bod yn gallu cwrdd â'r gofynion a chyflawni holl agweddau'r Swydd-Ddisgrifiad ar gyfer Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw hyd at safon foddhaol.

Cyflawnir Graddfa 10 ar ddiwedd y cyfnod hwn.

<u>Meini Prawf Perfformiad Allweddol Cam 2</u>

- Cwblhau Blwyddyn 2 o radd gydnabyddedig yn llwyddiannus ac arddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion allweddol a ddysgwyd. (Cyfeiriwch at eich modiwlau Cwrs)

- Cwblhau lleiafswm o 2 flynedd o brofiad ymarferol perthnasol a bod yn gallu cwrdd â'r gofynion a chyflawni holl agweddau'r Swydd-Ddisgrifiad

ar gyfer Cydlynydd Adeiladau a Chynnal a Chadw hyd at safon foddhaol.

Cyflawnir Graddfa 11 ar ddiwedd y Cam hwn.

Goruchwylydd Adeiladau a Chynnal a Chadw (Graddfa 11-12)

Meini Prawf Perfformiad Allweddol Cam 1

- Cwblhau Blwyddyn 3 o radd gydnabyddedig yn llwyddiannus ac arddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion allweddol a ddysgwyd. (Cyfeiriwch at eich modiwlau Cwrs)

- Cwblhau lleiafswm o 3 blynedd o brofiad ymarferol perthnasol a bod yn gallu cwrdd â'r gofynion a chyflawni holl agweddau'r Swydd-Ddisgrifiad ar gyfer Goruchwylydd Adeiladau a Chynnal a Chadw hyd at safon foddhaol.

Cyflawnir Graddfa 12 ar ddiwedd y Cam hwn.

Rheolwr Adeiladau a Chynnal a Chadw (Graddfa 13)

Meini Prawf Perfformiad Allweddol Cam 1

- Cwblhau Blwyddyn 4 o radd gydnabyddedig yn llwyddiannus ac arddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion allweddol a ddysgwyd. (Cyfeiriwch at eich modiwlau Cwrs)

- Cwblhau lleiafswm o 4 blynedd o brofiad ymarferol perthnasol a bod yn gallu cwrdd â'r gofynion a chyflawni holl agweddau'r Swydd-Ddisgrifiad ar gyfer Rheolwr Adeiladau a Chynnal a Chadw hyd at safon foddhaol.

Cyflawnir Graddfa 13 ar ddiwedd y Cam hwn.